# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gofal Cymdeithasol i Oedolion / Anabledd Dysgu, Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau / Tîm Triniaeth Gartref |
| **SWYDD:** | Gweithiwr Cymorth Cymunedol – Tîm Triniaeth Gartref |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR07 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Uwch-ymarferydd – Tîm Triniaeth Gartref |

**DIBEN Y SWYDD:**

Mae rôl y Gweithiwr Cymorth Cymunedol wedi'i lleoli yn y Tîm Triniaeth Gartref, Ysbyty Tywysoges Cymru.

Gan weithio ochr yn ochr â thîm o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol, byddwch yn darparu ymyriad a chymorth penodol sy'n canolbwyntio ar wella i unigolion sy'n dioddef problemau iechyd meddwl neu broblemau camddefnyddio sylweddau cysylltiedig o ganlyniad i'w sefyllfa gymdeithasol bresennol.

Byddwch yn gweithio gyda phobl mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan ganolbwyntio ar 'yr hyn sy'n bwysig' i bobl a'u cryfderau a'u galluoedd.

Byddwch yn mynd ati i hyrwyddo ein 'Model Ymarfer sy'n Seiliedig ar Gryfderau- Gweithio i Gyflawni Canlyniadau'.

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Gweithio'n agos gydag unigolion, gan eu cynorthwyo wrth iddynt wella i fynd i'r afael â'u problemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau a chyflawni eu canlyniadau. Bydd hyn yn cynnwys cwblhau ymyriadau byr gydag unigolion i'w cynorthwyo i aros yn annibynnol, a all hefyd gynnwys gwaith uniongyrchol gyda gofalwyr.
- Gwneud gwaith ymchwil yn ôl yr angen a rhoi cyngor, gwybodaeth a chymorth priodol i unigolion a'u gofalwyr a'u helpu i gael gafael ar gymorth ymarferol. Gallai hyn gynnwys cyfeirio i asiantaethau a rhwydweithiau cymorth priodol sydd ar gael yn y gymuned.
- Cynnal asesiadau sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn canfod y cymorth a'r help y gallai fod eu hangen ar unigolion o'r fath.

- Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch unigolion ac eraill, yn ogystal ag aelodau o'r gymuned, gan sicrhau y rhoddir gwybod am unrhyw faterion diogelu yn brydlon.
- Cyd-hwyluso grwpiau a gynigir gan y tîm, i unigolion ag anghenion sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu ddigartrefedd, monitro ac asesu risg i sicrhau diogelwch aelodau eraill o'r grŵp a staff. Monitro stoc, fel darpariaethau bwyd, menig neu ddeunyddiau sydd eu hangen ar gyfer y grŵp, ac argaeledd ystafelloedd.
- Cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd atgyfeirio wythnosol, gan gyfrannu at wneud penderfyniadau ac adrodd ar gynnydd unigolion neu anawsterau a nodwyd.
- Gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol perthnasol i adolygu achosion, cynlluniau gofal/cymorth, a chynnig ymyriad a/neu weithgareddau priodol wrth weithio o fewn y fframweithiau deddfwriaethol, rheoliadol a pholisi.
- Cysylltu ac eirioli ag asiantaethau eraill ar ran yr unigolyn, ac adolygu i sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth y cytunwyd arnynt yn cael eu dilyn.
- Bod ar gael i fynd gydag AMPHP i asesiadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl os oes angen, yn unol â Pholisi Gweithio Unigol yr Awdurdod.
- Cynnal goruchwyliaeth reolaidd gydag Uwch Weithwyr Cymdeithasol, a rhoi gwybod am unrhyw faterion yn uniongyrchol iddynt.
- Nodi, rheoli a lliniaru risgiau posibl i'ch hun ac eraill, drwy gymhwyso protocolau a chanllawiau risg sy'n bodoli eisoes.
- Cadw at weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Tîm Asesu Diogelu Plant.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Gweithiwr Cymorth Cymunedol – Tîm Triniaeth Gartref

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Addysg hyd at naill ai Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon NEU Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon, neu gymhwyster blaenorol perthnasol, neu'n barod i ennill y cymhwyster. | Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o ddarparu ymyriadau a chymorth uniongyrchol i bobl ag anghenion iechyd meddwl a/neu'r rhai sy'n cyflwyno gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau.<br>• Dealltwriaeth dda o broblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.<br>• Dealltwriaeth o faterion gofal cymdeithasol, fel y nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dulliau cymorth sy'n cynorthwyo unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl a/neu'r rhai sy'n cyflwyno gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu ffurfio perthnasoedd gwaith adeiladol gyda chydweithwyr, unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Meddu ar ddealltwriaeth o anghenion unigolion a'u teuluoedd sydd â phroblemau iechyd meddwl a/neu'n defnyddio sylweddau. | Ydy | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (parhad)** | • Gallu cyfathrebu’n glir ac yn effeithiol (ar lafar ac yn ysgrifenedig). | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| | • Gweithio yn unol â'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol. | Ydy | |
| | • Gallu dangos sgiliau trefnu da. | | |
| | • Sgiliau TG da a'r gallu i ddefnyddio Microsoft Office (Word, Excel, Outlook). | Ydy | |
| | • Dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfrinachedd a GDPR. | Ydy | |
| | • Gallu meddwl yn greadigol wrth ddod o hyd i atebion i gynorthwyo unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr â'u teithiau i wella. | Ydy | |
| | • Gallu ymgysylltu'n effeithiol ag unigolion a chynnal ffiniau proffesiynol clir. | Ydy | . |
| | • Gallu gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol a chynnal atebolrwydd am eich gwaith. | | |
| | • Ymwybyddiaeth o risg gyda'r gallu i weithredu'n bwyllog mewn modd proffesiynol wrth ymdrin ag ymddygiad anrhagweladwy a heriol. | Ydy | |
| | • Gallu cysylltu â gofalwyr/cefnogwyr i gynorthwyo â hyrwyddo'r llesiant meddyliol gorau posibl. | | |
| | • Gallu gweithio'n broffesiynol ac mewn ffordd anfeirniadol. | Ydy | |
| | • Trwydded yrru gyfredol, lawn a mynediad i gerbyd modur ar gyfer y gwaith. | Ydy | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |